



Polisi ADY

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable

POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Diffinir Anghenion Addysgol Arbennig yn gyfreithiol yn Neddf Addysg 1996 fel a ganlyn:

Mae gan blentyn anhawster dysgu os oes ganddo:

- ✓ anhawster arwyddocaol mwy wrth ddysgu na'r mwyafrif o blant o'r un oed
- ✓ anabledd sy'n atal neu rwystro y disgybl rhag gwneud defnydd llawn o'r adnoddau addysgol sydd ar gael o fewn yr ysgol

Egwyddorion ac Amcanion

Egwyddorion

- Mae'r ysgol hon wedi ymrwymo at sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion gydag anawsterau dysgu ychwanegol.
- Mae'r ysgol hon wedi ymrwymo at gydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau statudol perthnasol i'r disgybl a'i anawsterau.
- Mae'r ysgol hon yn anelu at weithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r disgybl ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnydd eu plant a'r ddarpariaeth ar eu cyfer.
- Mae'r ysgol hon yn rhoi pwyslais ar les a datblygiad y disgybl ac yn rhoi pob ystyriaeth i'w farn.
- Mae'r ysgol hon yn anelu at sicrhau ymateb ysgol gyfan ac aml asiantaethol os yn briodol i helpu'r disgybl.

Amcanion

- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd gydag anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg.
- Casglu gwybodaeth gan athrawon, rhieni, y disgybl ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am natur anawsterau'r disgybl.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth priodol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd gydag anawsterau dysgu ychwanegol.
- Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.
- Sicrhau bod disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad llawn at gwricwlwm eang a chytbwys.

Cyfrifoldebau

- ❖ Cyd-lynydd Anawsterau Dysgu Ychwanegol: Mrs Rhian Evans
- ❖ Llywodraethwr Dynodedig: Mr Huw Roberts - Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Gwybodaeth am y ddarpariaeth ADY

Y trefniadau ar gyfer cydgordio'r ddarpariaeth:

- ✓ Y Cyd-lynydd sydd yn gyfrifol am gydgordio'r gwasanaeth o fewn yr ysgol.

Cyfrifoldebau'r Cyd-lynydd Anawsterau Dysgu Ychwanegol

- Gweithredu'r polisi o ddydd i ddydd
- Cydgysylltu a chydweithio gydag athrawon a'u cynghori am y ddarpariaeth.
- Cydweithio gyda rhieni disgyblion ADY
- Cydgysylltu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag ADY drwy;
 - ✓ gymorth Gwasanaeth Nam Synhwyrdd Conwy
 - ✓ gymorth Tim Arbenigol Anhwylder Iaith a Lleferydd Conwy all gymorth – TAAILL
 - ✓ gymorth Gwasanaeth Spectrwm Awtistiaeth Conwy
- Cadw cofnodion ADY yr ysgol a goruchwylio cofnodion pob disgybl ag ADY yn rheolaidd
- Cydgysylltu ag asiantaethau eraill, e.e.,
 - ✓ Awdurdod Addysg – cyfarfodydd cynllunio gyda'r Seicolegydd Addysg
 - ✓ Gwasanaeth Iechyd,
 - ✓ Gwasanaethau Cymdeithasol
 - ✓ Mudiadau Gwirfoddol
- Sicrhau adolygu'r trefniadau'n rheolaidd
- Bwydo anghenion hyfforddiant i mewn i gynllun datblygu'r ysgol.
- Cydweithio gyda chynllun trosiannol Cynradd/Uwchradd ac uwchradd/ôl 16
- Tracio cynnydd disgyblion

Swyddogaeth Llywodraethwyr

Bydd Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Conwy yn sicrhau:

- bod polisi ADY yn unol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Anawsterau Dysgu Ychwanegol.
- bod polisi ar gael i'r holl staff gan gynnwys staff llanw
- bod y polisi yn glir ac yn weithredol.
- bod cofnodion a dogfennau ADY yn cael eu cadw gan y Cyd-lynydd ar system electronaidd yr ysgol ac yn cael eu diweddarau.
- bod y Corff Llywodraethol yn adrodd yn ôl ar ADY yn eu hadroddiad blynyddol i rieni.

Cyfrifoldebau'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol

- Ystyried amserlen y Cyd-lynydd ADY yng ngoleuni'r Cod Ymarfer a'r Bil Trawsnewid Newydd yng chyd-destun yr adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol.
- Sicrhau fod trefn monitro cynnydd disgyblion ADY yr ysgol.
- Sicrhau staffio a chyllideb angenrheidiol.

Trefniadau Mynediad

- Dan reolaeth Pwyllgor Addysg Conwy a'r Pennaeth ac yn berthnasol i bob plentyn os oes ganddynt ADY neu beidio
- mae'r Pennaeth yn gyfrifol am drefniadau mynediad, ag eithrio disgyblion sydd â Datganiad ADY / Cynllun Datblygu Unigol (CDU) pan fo angen ymgynghori gyda'r AALL.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag ADY i'r ysgol drwy:

- gydweithio gyda'r asiantaethau cynnal wrth dderbyn disgybl o'r newydd
- fynychu cyfarfodydd swyddogol, fel adolygiadau datganiadau,
- gynllun trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, dtrafodaethau a derbyn gwybodaeth, e.e., symud o ysgol i ysgol
- drafod â rhieni
- ymdrin â'r cais mewn dull cadarnhaol ac o fewn yr amgylchiadau sy'n bodoli o fewn yr ysgol ar yr adeg dan sylw
- ddarparu cefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol yn unol â Deddf Hawliau'r Anabl (Disability Discrimination Act 2005), Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a Deddf Cydraddoldeb 2010 (Equality Act 2010)
- drefnu cyfnodau anwytho i'r disgyblion yn ystod tymor yr Haf ym Mlwyddyn 6

Gwybodaeth ar Adnabod, Asesu a Darparu ar gyfer disgyblion ADY

Yn yr ysgol hon yr ydym yn canfod anghenion addysgol yn fuan drwy:

- wybodaeth trosglwyddo mewn ymgynghoriad a'n ysgolion cynradd a'r ALL.(wrth drosglwyddo o'r cynradd dilynwn bolisi yr All sydd bellach yn cynnwys gwybodaeth am asesiadau darllen a rhifedd statudol)
- gael tystiolaeth o arsylwadau ac asesiadau athrawon gan gofio fod pob athro yn athro ar blant ADY
- edrych ar berfformiad y disgyblion yn erbyn disgrifiadau lefelau y Cwricwlwm newydd a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
- sicrhau fod dulliau sgrinio ac asesu safonedig yn wybyddus i bob athro. Defnyddir profion llythrennedd Cymraeg Glannau Menai a Prawf Cymru Gyfan; a profion llythrennedd Saesneg NFER Darllen, a Young's Parallel Spelling, WRAT 4 a'r profion cenedlaethol.
- fod yn agored a pharod i ymateb pan fo rhieni/athrawon/cymorthyddion yn mynegi pryder, neu pan ddaw'r pryder gan y disgybl ei hun, neu bryderon gan weithwyr proffesiynol eraill.

Darpariaeth i ddisgyblion ADY

Bydd pob disgybl ag ADY yn dilyn y cwricwlwm gyda disgyblion eraill oni bai fod manylion o fewn ei Proffil Un Tudalen (PUT) yn nodi yn wahanol.

Gweithredu Ysgol (Monitro a Monitro wedi ei dargedu)

- Pan fo pryder ynghylch cynnydd disgybl er iddo gael pob cyfle yn y dosbarth bydd y Cydlynnydd mewn cydweithrediad gyda'r athrawon yn casglu gwybodaeth am y disgybl cyn penderfynu ar y camau i'w cymryd.
- Bydd y Cydlynnydd yn cynnal asesiad pellach o gryfderau a gwendidau'r disgybl ac yna adolygu'r trefniadau ar gyfer y disgybl ar y cyd gyda'r Athrawon pwnc (targedau llythrennedd / rhif).
- Bydd y Cydlynnydd yn creu Cynllun Addysg Unigol sy'n nodi y gefnogaeth sydd ei angen a'r targedau i'w cyflawni.
- Yr athro pwnc sydd yn gyfrifol am weithredu y Cynllun Addysg Unigol yn y prif-lîf.
- Y Cydlynnydd fydd yn monitor cynnydd ac yn gyfrifol am adolygiad o'r CAU.

Mae amrywiaeth o strategaethau ar gael i gefnogi y disgybl yn ystod y cyfnod yma, a rhoddir hyfforddiant cyson i staff ar sut i wneud hyn gan gynnwys:

- deunydd dysgu gwahaniaethol
- offer / adnoddau arbennig
- cefnogaeth grwp neu unigol
- cefnogaeth gan Gymhorthydd Dosbarth
- nodi targedau syml a monitro i asesu cynnydd

Yn ogystal darperir cymorth arbenigol i ddisgyblion Gweithredu Ysgol:

- Dyfal Donc/Catch Up
- Ymyrraeth llythrennedd, gwaith grwp
- Menter Maths
- Darllen/Mathemateg dyddiol (NESSY)

Gweithredu Ysgol a Mwy

Os gwelir nad yw disgybl yn dangos cynnydd drwy'r gefnogaeth Gweithredu Ysgol gellir cynnig mwy o gymorth iddo drwy ei roi ar gam gweithredu Ysgol a Mwy.

- Bydd y Cydlynnydd yn ymgynghori gydag arbenigwyr allanol e.e. seicolegydd addysg, i gasglu mwy o wybodaeth am anawsterau'r disgybl a chynghor ar dduliau addysgu a dysgu.
- Cynllunir Gynllun Addysg Unigol newydd fel bo angen yn dilyn unrhyw wybodaeth broffesiynol a dylai'r CAU/Proffil Disgybl gofnodi strategaethau newydd sy'n cael eu gweithredu.
- Fel arfer dylai'r gefnogaeth gael ei chynnig o fewn y dosbarth.
- Pan ystyrir bod cefnogaeth tynnu o ddsbarth "prif-lif" yn briodol, gwneir hyn ar sail grŵp bychan neu un i un.
- cyfrifoldeb yr athro pwnc yw gweithredu y rhaglen addysg unigol pan fo plentyn yn y prif-lif (targedau yn ei Broffil Disgybl)

Cofnodi monitro ac adolygu:

- Yr athro pwnc sydd yn cofnodi cynnydd y disgybl tuag at gyflawni targedau y Cynllun Addysg Unigol
- Yr athro pwnc a'r cydlynnydd sydd yn adolygu'r Cynllun Addysg Unigol. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad gyda'r rhieni a'r disgybl.

Asesiad Statudol

Os gwelir bod disgybl yn parhau i brofi anawsterau er darparu cefnogaeth dan weithredu Ysgol a mwy gellir ystyried cynnal Asesiad Statudol i benderfynu ar y ffordd orau i ddarparu ar ei gyfer.

Bydd y Cydlynnydd yn cyfeirio'r disgybl i'r All ac yn casglu'r holl dystiolaeth amdano o fewn yr ysgol yn cynnwys:

- Cynlluniau Addysg Unigol ar gyfer cyfnod Gweithredu Ysgol, a Gweithredu Ysgol +
- cofnodion o adolygiadau blynyddol.
- lefelau a chyraeddiadau Cwricwlwm Cenedlaethol
- canlyniadau profion gallu/llythrennedd/rhif
- asesiadau addysgol / iechyd / cymdeithasol
- barn rhieni a'r disgybl
- mewnbwn asiantaethau allanol

Gweithredu Ysgol + (Cytundeb/Agreement) neu Ddatganiad

Gan amlaf, pan fo disgynl yn derbyn cymorth Gweithredu Ysgol a mwy gyda Chytundeb, bydd cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu trwy'r AALL, er enghraifft Gwasanaeth TAAILL, LSS, Nam Synhwyrdd.

- rhoddir sylw unigol o fewn y dosbarth prif-lif, neu
- rhoddir sylw unigol yn yr Uned Anawsterau Dysgu Cymedrol
- paratwir gwaith gwahaniaethol gan yr athro dosbarth mewn ymgynghoriad a'r Cyd-lynydd ADY yn unol â'r wybodaeth a geir yn y Proffil Disgybl.
- trefnir cymorth unigol gan Gymorthyddion Dosbarth.
- ymgynghorir gydag asiantaethau cynhaliol (synhwyrddau, awtistiaeth, cefnogi dysgu)
- darperir gwersi arbenigol/cymorth 1:1 gan ddarparwyr o'r Awdurdod Addysg/Iechyd e.e. gwasanaeth TAAILL, LSS
- cynhelir trafodaethau gyda rhieni
- bydd yr ysgol yn cydweithio gyda'r disgybl a'i rhieni
- derbyn darpariaeth ar safle arall (e.e. Uned Gyfeirio Dysgwyr Conwy)

Ymwneud â Rhieni a Disgybl :

Ymgynghorir gyda disgyblion a rhieni yn ystod pob cam o'r Ymateb Graddoledig a gwahoddir rhieni i gyfarfodydd adolygu cynnydd blynyddol eu plentyn.

Darparu Mynediad at y Cwricwlwm Cenedlaethol

Yn unol a pholisi Cydraddoldeb yr ysgol, mae hawl gan ein holl ddisgyblion i ystod llawn o bynciau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion penodol gall ddisgyblion gael eu datgymwysu am gyfnod o un neu fwy o bynciau. Digwydd hyn pan mae penderfyniad wedi ei wneud ar y cyd rhwng y disgybl, rhieni a'r ysgol, y byddai'n fuddiol i'r disgybl gael fwy o amser ar ddatblygu sgiliau sylfaenol ac amser ychwanegol i gwblhau gwaith mewn pynciau penodol.

Disgwylir i bob adran gynnwys gwahaniaethu yn eu cynlluniau dysgu ac addysgu ar gyfer ystod llawn o ADY. Gall hyn fod drwy dasg, deilliant, ymateb neu'r adnoddau a chefnogaeth sydd ar gael. Gall adran ddefnyddio nifer o'r strategaethau hyn. Bydd pob adran yn penderfynu sut allent ymateb gorau i anghenion disgyblion a gwneud y defnydd gorau o'u adnoddau. Gallent hefyd alw ar gefnogaeth gan y Cydlynnydd ADY er mwyn sicrhau bod eu ymateb yn briodol a/neu am gymorth wrth wahaniaethu

Cynhwysiad Disgyblion ADY

Darperir gefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol, fel y bo modd.

Adnoddau

Mae gan yr ysgol Ganolfan Adnoddau i ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhedrol sydd a lle i 12 o ddisgyblion dalgylch a thu hwnt. Arweinir y Ganolfan gan y CADY a chyda cefnogaeth cymhorthyddion fel bo angen. Cynhwysir y disgyblion mewn gwersi prif lif lle bo modd gan roi sylw penodol i'w sgiliau iaith a rhif yn ystod gwersi yn y ganolfan.

Atodiad 1:

Adnoddau Dynol a'u cyfrifoldebau

Swyddog Gweinyddol ADY llawn amser - Mrs Lynne Roberts
Athrawes Arbenigol Dyslecsia - Miss Lucy Parry



Cymhorthyddion Dysgu - Mae'r ysgol yn bresennol yn cyflogi 3 Cymhorthydd Dysgu ar cwricwlwm prif-lif ar Uned Anawsterau Dysgu Cymedrol:

Miss Ffion Davies	-	Uned ADC /Prif-lif / Un i un
Mrs Catherine Caddick	-	Uned ADC /Prif-lif / Un i un
Miss Bethan Evans	-	Uned ADC /Prif-lif

Anogwyr Dysgu - Mae'r ysgol yn cyflogi Anogwr Dysgu:

Tracy Stone
Emyr Owen-Hopkins

Cymhorthyddion Dysgu Awdurdod Addysg - Mae'r Awdurdod Addysg yn cyflogi 6 Cymhorthydd Cefnogi Dysgu sydd yn gweithio gyda disgyblion ag anawsterau addysgol, penodol, corfforol, synhwyrol, ymddygiadol.

Mrs Sioned Gwyndaf
Mrs Julie Roberts
Mrs Dilys Williams
Mrs Menna Morris
Mr Peter Roberts
Mr Gerallt Hughes

Swyddogaeth Cymorthyddion Dysgu

Mae Cynorthwyr Cefnogi Dysgu yn gyfrifol am:

- gefnogi unigolion neu grwpiau bach o ddisgyblion
- gefnogi rhaglenni ymyrraeth Llythrennedd a Rhifedd
- Cynllun datblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu - Talkabout
- gyfrannu i weithrediad y PUT
- gyfrannu i ddatblygu adnoddau i ddisgyblion ADY
- fynychu cyfarfodydd ac Adolygiadau yn ôl cyfarwyddyd y Cyd-lynydd ADY
- roi adroddiad ar lafar neu bapur o gynnydd disgyblion maent yn gweithio gyda hwy.

Wrth weithio gyda Chymorthyddion Dysgu mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am:

- esbonio gwaith dosbarth a disgwyliadau
- amserlen a cynllun y tymor, er mwyn gallu addasu adnoddau y cwricwlwm
- reolaeth a trefniadaeth y dosbarth.
- osod tasgau gwaith cartref gwahaniaethol i ddisgyblion ADY

Datblygu / Hyfforddiant Staff

Mae staff yr ysgol yn derbyn gwybodaeth ddiweddaraf drwy:

- gyfarfodydd Ysgol Gyfan
- gyfarfodydd Cyswllt Adrannol

- gwybodaeth ar system electronaidd yr ysgol

Hyfforddiant mewn Swydd

- bydd y cydlynnydd yn adnabod anghenion hyfforddi ac yn bwydo i mewn i'r Cynllun Datblygu
- gall y cydlynnydd wneud cais am gymorth hyfforddi neu gynhالياeth oddiwrth Adran Addysg Conwy

Atodiad 2

Partneriaeth â Rhieni

Mae'r ysgol yn cydnabod y dylanwad holl bwysig sydd gan rieni ar gynnydd addysgol eu plant. Er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol anogir cydweithrediad gyda rhieni trwy:

- dalu sylw haeddianol i bryderon rhieni gan eu trafod yn briodol
- cysylltu â'r rhieni pan benderfynir cymryd camau i ddelio ag anawsterau dysgu trwy; Gynllun Gweithredu Ysgol, neu Gynllun Gweithredu Ysgol + (gan ofyn am eu barn a'u sylwadau)
- rhoi lle amlwg i gymorth y rhiant lle bo hynny'n briodol
- rhoi sylw proffesiynol i farn y rhieni wrth lunio Proffil Un Tudalen
- rhannu gwybodaeth am ffynonellau cymorth
- sicrhau bod y polisi hwn yn ei gyfanrwydd ar gael i'r rhieni ei ddarllen
- cynnwys rhieni mewn adolygiadau rheolaidd ar eu plentyn
- darparu adran yn Llawlyfr yr Ysgol yn trafod ADY.

Cysylltu gyda ysgolion prif-lîf ac ysgolion arbennig, gan gynnwys gwneud trefniadau angenrheidiol pan fydd disgyblion yn symud neu'n gadael ysgol

Mae gan yr ysgol gysylltiad agos ag ysgolion y dalgylch a threfnir cyfarfodydd a thrafodaeth â hwynt pan fydd disgybl yn:

- symud o ysgol prif-lîf i ysgol prif-lîf arall
- symud o ysgol gynradd i uwchradd – trosglwyddo gwybodaeth, cyfarfodydd adolygu
- symud i Ysgol Arbennig neu yn ôl i'r prif-lîf - trafodaethau rhwng yr ysgolion a'r Swyddog Anawsterau Dysgu Ychwanegol yr Awdurdod Addysg

Byddwn yn cynllunio yn ofalus gyda'r ysgol newydd, a chynnal sesiynau anwytho yn ôl y galw cyn i'r disgybl symud ysgol

Trefniadau ar gyfer ystyried cwynion am y ddarpariaeth ADY

Gall rhiant sydd â chwyn gysylltu â'r canlynol yn y lle cyntaf:

- Cydlynnydd ADY
- Pennaeth yr Ysgol
- Cynrychiolwyr y rhieni ar y Llywodraethwyr
- Llywodraethwr penodedig Anawsterau Dysgu Ychwanegol

Os nad yw'r ffyrdd hyn yn cynnig ateb i'r gŵyn yna gall y rhiant ddilyn y sianelau isod:

Cysylltiadau Asiantaethau Allanol

Darperir gwasanaeth gan:

1. Gwasanaeth Seicolegol Awdurdod Addysg Conwy
2. Athrawon arbenigol - golwg, clyw, corfforol, awtistiaeth, iaith a lleferydd
3. Gwasanaethau Iechyd
4. Gwasanaeth Cynhwysiad Cymdeithasol Awdurdod Addysg Conwy
5. SNAP – gwasanaeth cefnogol i rieni

Gellir hefyd cyfeirio materion o bryder at y nyrs ysgol sydd yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgol ac yn berson cyswllt allweddol.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Y pwynt cyswllt cyntaf yw'r Gwasanaeth Cymdeithasol Addysg (Swyddog lles) er mwyn iddynt gyfeirio'r rhiant tuag at y man priodol. Gellir cysylltu yn uniongyrchol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar unrhyw adeg gyda materion diogelu (01492 575111)

Gwasanaeth Cymdeithasol Addysg (lles)

Mae'r Swyddog Lles yn ymwelydd rheolaidd â'r ysgol a defnyddir y swyddog i ymweld â chartrefi lle bo angen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig arweiniad a chymorth gan gyfeirio'r plentyn/rhieni at asiantaethau eraill.

SNAP Cymru

Mae Swyddogion SNAP Cymru yn ymweld â'r ysgol yn ystod adolygiadau blynyddol, ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth i rieni. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig arweiniad gan gyfeirio'r rhieni at asiantaethau eraill.

Atodiad 3

Cynllun Ymyrraeth Llythrennedd a Rhifedd (Grant Effeithiolrwydd Ysgolion)

Yn dilyn dadansoddiad manwl o ganfyddiadau profion darllen, rhifedd a/neu sillafu, mae'r ysgol yn adnabod disgyblion sydd angen eu targedu fel rhan o'n rhaglenni ymyrraeth llythrennedd a rhifedd.

Rhedwn y rhaglenni ymyrraeth canlynol:

Llythrennedd: Dyfal Donc, darllen grwp, buddies darllen, Rhaglen NESSY, ymyrraeth dyslecsia mewn partneriaeth efo athrawes arbenigol, cynllun menter mathemateg (buddies 6ed dosbarth rhifedd).

Yn ychwanegol rydym wedi adnabod amser penodol yn amserlenni ein holl staff cefnogi i gefnogi sgiliau llythrennedd i ddisgyblion a SS o dan 90 yn y Saesneg yn ystod y cyfnodau boreuol.

Mae disgyblion y 6ed dosbarth hefyd yn cefnogi disgyblion targed fel rhan o'u oriau ychwanegol BAC unai efo cynllun buddies darllen 1-1 (disgyblion a SS o dan 90 mewn darllen yn y Gymraeg) neu cynllun menter maths (ymyrraeth rhifedd) 1-1 (i ddisgyblion sydd a SS rhifedd rhwng 85-95 efo blaenoriaeth i flwyddyn 7).

Adolygir cynnydd y disgyblion hyn yn gyson gan wneud adolygiad ffurfiol wedi cyfnod penodol o ymyrraeth (fel arfer 10 wythnos / tymor).